



# Adolygiad Ymarfer Plant Cryno

## **CYSUR 2/2017**

Dyddiad y cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad:  
24 Ionawr 2019

### Adroddiad Adolygiad Ymarfer Plant Drafft

#### CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru

#### Adolygiad Ymarfer Plant Cryno: CYSUR 2/2017

#### Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

I'w gynnwys yma:

- Y cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â hwy
- Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad
- Y cyfnod a adolygir a'r rheswm pam
- Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad

#### Cyd-destun Cyfreithiol

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gan CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth statudol a nodir yn adran 139 o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*<sup>1</sup> a'r canllawiau cysylltiedig *Cydweithio i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant*<sup>2</sup> (Llywodraeth Cymru, 2016). Caiff y meini prawf ar gyfer cynnal yr adolygiad hwn eu bodloni dan Bennod 6 yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Mae'n rhaid i Fwrdd gyflawni Adolygiad Ymarfer Plant Cryno mewn unrhyw un o'r achosion canlynol, lle bo o fewn ardal y Bwrdd, camdriniaeth neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu a amheuir a bod y plentyn wedi:

- Marw; neu
- Wedi cael anaf sy'n bygwth bywyd; neu
- Wedi cael niwed difrifol neu barhaol i iechyd neu ddatblygiad; a nid oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nag yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn
- Dyddiad y digwyddiad y cyfeirir ato uchod; neu
- Y dyddiad y mae'r Awdurdod Lleol (ALI) neu bartner perthnasol<sup>3</sup> yn nodi bod y plentyn yn cael niwed difrifol neu barhaol i iechyd neu ddatblygiad.

Mae'r meini prawf ar gyfer adolygiadau cryno wedi'u nodi yn *Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015*<sup>4</sup>.

Diben yr adolygiad yw nodi'r hyn sydd i'w ddysgu ar gyfer ymarfer yn y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch-swyddogion yn y broses o archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn a theulu. Bwriedir i ganlyniad yr adolygiad arwain at waith dysgu proffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant mewn ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol. Bydd yn cynnwys yr amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad, yr ymarfer a'r gwaith dysgu sefydliadol a nodwyd yn yr ystod yr adolygiad, gan gynnwys tynnu sylw at ymarfer effeithiol (Amddiffyn Plant yng Nghymru: Canllawiau Trefniadau ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Aml-asiantaeth, Llywodraeth Cymru 2012<sup>5</sup>).

Mae'r Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Adolygiad Ymarfer Plant Cryno hwn yn **Atodiad 1**.

<sup>1</sup> [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

<sup>2</sup> [Cydweithio i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant](#) (Llywodraeth Cymru, 2016)

<sup>3</sup> Ystyr Awdurdod Lleol neu bartner perthnasol yw person neu gorff y cyfeirir ato yn adran 28 o *Ddeddf Plant 2004* neu gorff a gaiff ei grybwyll yn adran 175 o *Ddeddf Addysg 2002*.

<sup>4</sup> [Rheoliadau Byrddau Diogelu \(Swyddogaethau a Gweithdrefnau\) \(Cymru\) 2015](#)

<sup>5</sup> [Cydweithio i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 2 – Adolygiad Ymarfer Plant](#) (Llywodraeth Cymru, 2015).

### Yr Amgylchiadau a Arweiniodd at yr Adolygiad

Roedd y person ifanc yn blentyn 15 oed, y darganfuwyd ei gorff ar ei ben ei hun yn yr awyr agored. Credwyd bod y person ifanc wedi marw rhywbryd yn ystod y nos ar ôl mynychu parti awyr agored lle amheuir bod pobl ifanc wedi bod yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon. Rhannwyd adroddiad tocsicoleg post mortem yn y Cwest a oedd yn nodi bod y person ifanc cyn ei farwolaeth wedi defnyddio cannabis a MDMA yn ormodol.

Yn yr wythnosau yn union cyn ei farwolaeth, roedd y person ifanc wedi dechrau mynd ar goll yn aml o'i gartref. Roedd nifer o asiantaethau wedi edrych mewn i'r mater ond bu anawsterau o ran ymgysylltu gyda'r person ifanc a'i deulu. Fodd bynnag, roedd y drws wedi parhau i fod ar agor ar bob adeg i'r person ifanc a'i deulu ail-ymgysylltu, neu alw ar gefnogaeth asiantaeth, pe byddai angen hynny. Roedd ymwybyddiaeth o broblem camddefnyddio sylweddau a phresenoldeb ac ymgysylltiad gwael gyda'r ysgol.

Yn unol â gweithdrefnau, cynhaliwyd cyfarfod Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC)<sup>6</sup>. Persbectif yr aelodau yn y cyfarfod hwnnw oedd y dylid gwneud atgyfeiriad dan y broses Adolygiad Ymarfer Plant yn seiliedig ar amgylchiadau'r farwolaeth sydyn a hanes yr unigolyn.

### Cyfnod Amser a Adolygwyd a Pham

Mewn Adolygiad Ymarfer Plant Cryno (CCPR), mae'r dysgu'n canolbwyntio ar ddeuddeg mis olaf bywyd y person ifanc ac roedd hyn yn cyfateb â'r pwynt lle y gadawodd y person ifanc ysgol brif ffrwd a throsglwyddo i wasanaethau cefnogi disgyblion. Roedd y llinell amser i'w hadolygu o 8 Ebrill 2016 tan 8 Ebrill 2017. Fodd bynnag, er mwyn deall y cyd-destun angenrheidiol, ystyriodd y broses ddysgu beth gwybodaeth hanesyddol berthnasol.

Dylid nodi bod ymchwiliad yr Heddlu'n parhau ar ddechrau'r broses adolygu, a gohiriwyd y broses adolygu tan 30 Mai 2018 er mwyn aros am ganlyniad y Cwest i'r person ifanc, a ddigwyddodd ar 19 Medi 2018.

### Hanes Teulu'r Person Ifanc a Gwybodaeth Gyd-destunol

Ni fu'r person ifanc erioed yng ngofal yr Awdurdod Lleol (ALI) nac yn destun Cynllun Amddiffyn Plant. Roedd y person ifanc yn byw gartref ac yn un o grŵp mawr o frodyr a chwiorydd.

Disgrifiwyd y person ifanc gan ei deulu a chan ffrind fel person cariadus, teyrngar a huawdl iawn, a oedd yn boblogaidd gyda'i gyfoedion ond na allai ddweud 'na' na cherdded i ffrwd o sefyllfaoedd. Roedd y person ifanc yn hoffi beicio, pêl-droed, drymio a cherddoriaeth rhythm, ynghyd â mathemateg a chelf. Roedd gan y person ifanc synnwyr digrifwch, ac roedd yn fwyn gyda'i ffrindiau agos ac yn barod i'w hamddiffyn. Ar adegau, gallai'r person ifanc fod yn ystyfnig, hedonistaidd ac amwys. Ond pan oedd y person ifanc yn ymgysylltu, roedd ei gynnydd a'i ymwybyddiaeth yn bositif.

Erbyn bod y person ifanc ym Mlwyddyn 9, roedd wedi'i asesu fel rhywun na allai ymdopi mewn lleoliad prif ffrwd. Nodwyd bod y person ifanc yn academiaidd alluogi, ond ei fod yn dangos ymddygiadau heriol a lefelau uchel o absenoldeb. Gallai'r person ifanc fod yn ymosodol yn y cartref ac yn ystod llinell amser yr adolygiad, roedd ei fam wedi gofyn am ofal seibiant ar ddau achlysur gwahanol. Roedd y teulu'n teimlo na allent ymdopi neu reoli'r sefyllfa oedd yn datblygu.

Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Teuluoedd a Phlant yr Awdurdod Lleol (FCSS), wedi adnabod y person ifanc a'i deulu'n flaenorol. Bu ymgysylltiad cyfyngedig gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal (YJPS) ochr yn ochr ag asiantaethau eraill. Roedd y Tîm Asesu a Chefnogi Plant a Theuluoedd (CFAST), y Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) wedi cynnig cyngor a

<sup>6</sup> Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod (PRUDiC).

chefnogaeth rhianta, ynghyd â mynediad i wasanaethau eraill, ond roedd ymgysylltiad y rhieni o ran mynd i'r afael â phryderon yn gyfyngedig iawn. O fewn y teulu a thrwy gyfaddefiad y person ifanc ei hun, roedd drwgdybiaeth gyffredinol o asiantaethau.

Cynhaliwyd Cyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant dan 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008'<sup>7</sup> yn Nhachwedd 2016, yn sgil pryderon cynyddol ynghylch y ffaith bod y person ifanc yn mynd ar goll, ac adroddiadau am gamddefnyddio sylweddol ac alcohol ganddo. O ganlyniad, cytunwyd ar gamau diogelu gydag asiantaethau a chynigiwyd ymyriadau cefnogi i'r person ifanc a'i deulu.

Rhodddwyd darpariaethau addysg amgen ar waith, ond roedd yn anoddach fyth sicrhau darpariaeth addas oherwydd bod y person ifanc eisoes wedi'i wahardd rhag cyfleoedd addysgol ehangach yn bennaf oherwydd ymddygiad annerbyniol a phresenoldeb gwael.

Erbyn Mawrth 2017, roedd y person ifanc ond yn fodlon ymgysylltu ag addysg am ddwy awr y dydd. Byddai'r person ifanc yn aml yn cyrraedd yn hwyr ac roedd camddefnyddio sylweddau yn broblem fawr a oedd yn effeithio ar ei gyfranogiad.

Cynhaliwyd Trafodaeth Strategaeth ar 7 Ebrill 2017 gan fod tri adroddiad Heddlu pellach o'r person ifanc ar goll, a chanlyniad hynny oedd symud ymlaen i gynnal Cyfarfod Strategaeth dan 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008'<sup>8</sup>.

Mynychodd y person ifanc yr adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ddwywaith wedi iddo ddioddef anafiadau damweiniol yn 2017. Ar yr ail achlysur, roedd ar goll o'i gartref. Drwy linell amser yr adolygiad, roedd tystiolaeth gadarn o gamddefnyddio sylweddau, gyda'r person ifanc yn defnyddio cannabis ac yn datgelu'i fod wedi profi (ecstasi).

Dros linell amser yr adolygiad, roedd nifer cynyddol o gysylltiadau gyda'r Heddlu, oherwydd adroddiadau o fod ar goll (6), achosion o amau camddefnyddio sylweddau a delio mewn cyffuriau (14), ac achosion eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol a pheryglus, ac aflonyddu ar eraill (8).

Roedd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal wedi ceisio sawl gwaith i ymgysylltu â'r person ifanc, ar sail unigol ac o fewn cyd-destun lleoliad, yn dilyn atgyfeiriadau ac ymddangosiadau Biwro<sup>9</sup>.

Mae'n ymddangos mai ymgysylltiad cyfyng ac anghyson a wnaeth y teulu a'r person ifanc (cymryd arnynt eu bod yn cydymffurfio, dim newid sylweddol mewn adolygiadau er gwaethaf mewnbyn sylweddol, rhieni'n cytuno â gweithwyr proffesiynol ynghylch y newidiadau angenrheidiol ond wedyn dim ymdrech go iawn i sicrhau fod y newidiadau'n gweithio, rhiant yn alinio'i hun gyda rhai gweithwyr proffesiynol)<sup>10</sup>. Fodd bynnag, roedd y teulu'n teimlo diffyg eglurder a dryswch o ran pa asiantaeth a oedd yn cynnig darpariaeth neu wasanaeth penodol.

Roedd asiantaethau pellach, fel y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau hefyd yn ymwneud â'r person ifanc. Roedd eu hymgysylltiad yn dilyn atgyfeiriad a wnaed gan Wasanaethau Cymdeithasol Teuluoedd a Phlant (FCSS). Yn dilyn asesiad o'r person ifanc, darparwyd sesiynau gwybodaeth a lleihau niwed gyda pheth ymgysylltu cynhyrchiol.

<sup>7</sup> Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

<sup>8</sup> [Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008](#)

<sup>9</sup> Bu'r Tîm Troseddau Ieuencid, fel model o adran cyn mynd i'r llys, yn gyfrifol am sefydlu'r 'Biwro' cyntaf yn Abertawe. Ehangwyd hyn nawr fel model ar draws y rhan fwyaf o Gymru, fel yng Ngheredigion. Mae'n anelu at ddarparu cyfle i bobl ifanc i gael eu dargyfeirio allan o'r system cyfiawnder troseddol a rhoi'r cyfle iddyn nhw a'u rhieni/gofalwyr gael gafael ar wasanaethau cefnogi a fydd o bosibl yn gallu diwallu eu hanghenion. Mae'n bartneriaeth rhwng yr Heddlu a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid ac fe'i cefnogir gan y bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae ymgysylltiad y person ifanc yn wirfoddol.

<sup>10</sup> Indicators of Disguised Compliance, addawyd gan by Reconstruct o Peterborough LSCB, Warwickshire LSCB, Stoke on Trent LSCB. Rhaglen Datblygu Staff Reconstruct 'Working with Difficult Dangerous & Evasive Service Users'.

Roedd ymgysylltiad y person ifanc ag addysg yn gymhleth. Roedd yr Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU) wedi cyfeirio'r person ifanc at Wasanaethau Cymdeithasol Teuluoedd a Phlant yn sgil y pryderon ynghylch camddefnyddio sylweddau, ymddygiad peryglus a diffyg presenoldeb, a oedd wedi gwaethygu'n sylweddol tuag at ddiwedd oes y person ifanc.

Roedd ymddygiad y person ifanc hefyd wedi dod yn fwy heriol, bygythiol ac ymosodol. Fodd bynnag, pan fyddai gwasanaeth yn ymyrryd, yn dilyn atgyfeiriadau neu geisiadau am gymorth, byddai'r sefyllfa wedyn yn gwella, ond am gyfnodau byr yn unig.

Derbyniwyd ymgysylltiad y Tîm o Amgylch y Teulu â'r teulu'n dda drwy'r cyfan, gyda'r teulu'n gallu cael mynediad at wasanaethau ar sail mynediad agored. Roedd y Tîm o Amgylch y Teulu hefyd yn amlwg wrth gynnig cefnogaeth estynedig i deulu a ffrindiau'r person ifanc yn dilyn marwolaeth sydyn y person ifanc.

### Dysgu o Ymarfer a Dysgu Sefydliadol

*Dylech nodi pob pwnt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (gan dynnu sylw at ymarfer effeithiol) a dylech roi amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol.*

### Asiantaethau a oedd yn ymwneud â'r Person Ifanc

Rhestrir yr asiantaethau hynny ar dudalen 12.

### Gweithio Partneriaeth Amlasiantaethol

- Cafodd y person ifanc ei gefnogi'n sylweddol gan ystod eang o asiantaethau a oedd yn gweithio'n effeithiol o fewn protocolau eu hasiantaethau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'r person ifanc wedi elwa mwy ar ddull mwy cyfannol, a oedd yn canolbwyntio ar y person mewn modd cydlynol yn seiliedig ar ei sefyllfa o ddydd i ddydd, yn enwedig pan oedd arwyddion ymddygiad peryglus yn fwy amlwg.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd amlasiantaethol yn rheolaidd, a drefnwyd gan y Tîm o Amgylch y Teulu, gyda rhai asiantaethau partner perthnasol yn bresennol, ond nid oedd y bobl briodol bob amser yn cael gwahoddiad. Gallai cyfarfodydd o'r fath fod wedi cynnig cyfleoedd pellach ar gyfer gweithio'n gyfannol gyda'r person ifanc i ddadansoddi, llywio ac asesu risg y darlun a oedd yn dod i'r amlwg.
- Roedd sefyllfaoedd a godai gyda'r person ifanc yn cael sylw adweithiol, yn hytrach nag ystyried canlyniad/cynllun mwy hirdymor; ar adeg ei farwolaeth, nid oedd cynllun amlasiantaethol mewn bodolaeth i reoli'r ymddygiad peryglus a oedd yn gwaethygu.
- Cafwyd trafodaethau ac atgyfeiriadau nodedig, rhannwyd gwybodaeth a chytunwyd hefyd ar gamau. Fodd bynnag, pan nad oedd ymgysylltiad gan y teulu neu'r person ifanc, roedd yr achos ynghau. Eto i gyd, roedd y risgiau, ymddygiadau, absenoldeb a'r digwyddiadau peryglus a oedd wedi ysgogi cyfarfodydd yn parhau i fodoli.
- Roedd asiantaethau unigol yn cadw cofnodion trylwyr. Fodd bynnag, sylweddolai'r gweithwyr proffesiynol a fynychodd y Digwyddiad Dysgu gymaint o wybodaeth ychwanegol oedd ar gael ynghylch y person ifanc. Roeddynt o'r farn y byddai rhannu'r wybodaeth hon yn fwy eang efallai wedi helpu i ddeall sefyllfa'r person ifanc yn well. Gallai hyn yn ei dro fod wedi arwain at Atgyfeiriad Amlasiantaethol i Wasanaethau Cymdeithasol Plant, a fyddai wedi darparu cyfle i roi cynllun priodol ar waith i geisio mynd i'r afael â'r risgiau.

### Arfer Da a Nodwyd

Gwnaeth ymdrechion parhaus i gynnig cefnogaeth ac i ymgysylltu â'r person ifanc a'i deulu a phan fyddai'r person ifanc/teulu ynghau i wasanaethau, roedd cyfle bob amser iddynt ail-ymgysylltu; cynhaliwyd polisi drws agored.

### Safbwynt y Teulu / Ffrind

Roedd y teulu'n gwerthfawrogi'n fawr rôl asiantaethau a roddodd gefnogaeth iddynt cyn ac ar ôl marwolaeth y person ifanc. Gwerthfawrogwyd y gefnogaeth helaeth a gynigiwyd i'r person ifanc.

### Dysgu

Mae angen i asiantaethau esbonio'n glir eu rôl a'r gwasanaethau sydd ar gael i deuluoedd gan ddefnyddio dull priodol sy'n canolbwyntio ar y person, sef dull sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u dealltwriaeth.

Dylid rhannu gwybodaeth ar y cyd â'r holl asiantaethau sy'n cefnogi person ifanc mewn modd cywir ac amserol er mwyn llywio asesiadau risg a chynlluniau cefnogi amlasiantaethol, cyfannol gyda' posibilid o ddefnyddio Gweithdrefnau Amddiffyn Plan os yw hynny'n angenrheidiol. Gellir gweithredu 'Cynlluniau Ymddygiad Peryglus'<sup>11</sup> sy'n defnyddio arfer gorau, sy'n dangos atebolrwydd, sy'n cynnwys ymgysylltiad rhieni, ac sy'n rhoi lle priodol i lais y person ifanc, a'r cyfan yn deg, agored a thryloyw.

### Cefnogi Teuluoedd â Phroblemau Cymhleth

- Nodwyd bod gan y person ifanc anghenion emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol cymhleth.
- Roedd ymgysylltiad cyfyngedig, anghyson yn ffactor a oedd yn cyfrannu yn y dysgu. Cofnodwyd newid positif ar adegau gan asiantaethau, ond ni chynhaliwyd y newid hwn.
- Roedd y person ifanc yn cyflwyno her, ac roedd ganddo agwedd ddisgyrsiol ar adegau pan oedd yn gweithio â pherson proffesiynol. Roedd yn ymddangos mai'r anhawster oedd ceisio canfod ffordd o dorri trwodd a fyddai'n arwain at ymgysylltiad gwirfoddol parhaus, gan arwain at welliant.
- Bu gweithwyr proffesiynol yn y Digwyddiad Dysgu'n ystyried yn ofalus eu penderfyniadau ynghylch cau achos y person ifanc. Teimlwyd y dylai'r penderfyniad i gau achos person ifanc lle mae diffyg ymgysylltu yn ffactor sylweddol gael ei gytuno bob amser gan ddefnyddio dull amlasiantaethol cydgysylltiedig.

### Arfer Da a Nodwyd

Roedd ystod gynhwysfawr o gefnogaeth ar gael i'r teulu a hynny'n barhaus. Rhoddwyd darpariaeth helaeth yn ei lle gan yr Awdurdod Lleol i alluogi'r person ifanc i gael mynediad i addysg a darpariaeth arall.

### Arfer Da a Nodwyd

Gwrandawyd ar y person ifanc a chlywyd ei las pan oedd am ymgysylltu. Roedd enghreifftiau o'r person ifanc yn gallu rhannu gwybodaeth gyfrinachol am ei deimladau a'i weithredoedd o fewn y cartref ac mewn lleoliadau allanol.

### Safbwynt y Teulu / Ffrind

<sup>11</sup> Dylai Cynllun Ymddygiad Peryglus/Rheoli fod yn seiliedig ar: Defnydd priodol o wybodaeth, amcangyfrif o debygolrwydd ac effaith yn seiliedig ar asesiad sy'n defnyddio tystiolaeth ac ar gyfathrebu gyda gweithwyr eraill perthnasol. Dylai Cynlluniau Rheoli Risg gyd-fynd yn dda â'r risgiau a nodwyd, dylid sicrhau bod adnoddau priodol ar gael iddynt a dylid eu gweithredu ag uniondeb. Protocol Ymddygiad Cymryd Risgiau Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf, Rhagfyr 2014.

Byddai'r person ifanc yn dweud yn aml fod ganddo berthynas dda â'i fam. Fodd bynnag, roedd adegau pan oedd y teulu'n teimlo'n unig ac yn methu ymdopi ag ymddygiadau'r person ifanc wrth iddynt ddod i'r amlwg. Teimlwyd bod grŵp cyfoedion y person ifanc yn effeithio ac yn dylanwadu arno. Gofynnwyd am ofal seibiant ond ni ddarparwyd hynny fel opsiwn. Nid oedd yn glir i'r rhiant pam ddigwyddodd hynny.

### Dysgu

Mae angen i asiantaethau gyfathrebu mewn modd sy'n golygu bod teuluoedd yn deall rhesymeg eu penderfyniadau, yn enwedig pan na ellir ateb anghenion, ceisiadau a/neu ddisgwyliadau'r teulu.

Dylid sefydlu hyfforddiant sgiliau i weithwyr proffesiynol i ddatblygu ymhellach cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn gwella ymgysylltiad.

### Nodi, Asesu, Cydnabod a Rheoli Ymddygiad Peryglus

- Roedd y person ifanc yn dangos ymddygiad peryglus cyson a oedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a throseddau lefel isel ynghyd â nifer o ysgogiadau fel y nodir gan brotocolau<sup>12</sup> awdurdodau cyfagos ar gyfer Ymddygiadau Peryglus. Un o'r ysgogiadau pennaf oedd y person ifanc yn ymwneud â grŵp cyfoedion hŷn; roedd pob un o'r unigolion hynny dros 18 oed ac yn wybyddus i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal. Cafwyd tri digwyddiad mewn pythefnos pan fu'r person ifanc allan yn oriau mân y bore ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymateb amlasiantaethol cydgysylltiedig yn ei le. Roedd asesiad risg Asedau wedi'i gwblhau ond roedd hynny ar sail un asiantaeth yn unig ar adeg pan oedd yr Heddlu yn codi nifer cynyddol o bryderon: pryderon ynghylch adroddiadau o fod ar goll, amheuaeth o gamddefnyddio sylweddau, delio mewn cyffuriau ac achosion eraill o ymddygiadau gwrthgymdeithasol a pheryglus. Mae'n debygol y byddai camau gweithredu gan gynnwys Cynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol (ICPC) wedi codi o'r Cyfarfod Strategaeth a oedd fod i gael ei gynnal ar adeg marwolaeth sydyn y person ifanc.
- Roedd camddefnyddio sylweddau broblem sylweddol i'r person ifanc. Roedd yn camddefnyddio canabis ond bu hefyd achlysur aeth â meddyginiaeth ragnodedig ei rieni a'i basio ymlaen i berson ifanc arall. Roedd cyfaddefiad hefyd bod y person ifanc wedi profi MDMA.
- Roedd y person ifanc yn cyflwyno her mewn trafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol gan achosi iddynt nodi fod gan y person ifanc 'ymdeimlad gwael o berygl'.
- Atgyfeiriwyd y person ifanc at wasanaethau cefnogi Camddefnyddio Sylweddau, ond roedd y ffaith ei fod yn diystyru effaith negyddol camddefnyddio sylweddau yn achos cryn bryder i'r gweithwyr proffesiynol.
- Yn y cwest, datgelwyd drwy adroddiadau tocsicoleg post mortem bod y person ifanc wedi defnyddio canabis ar ryw bwynt cyn ei farwolaeth. Roedd yr adroddiadau hefyd yn nodi defnydd gormodol o MDMA cyn ei farwolaeth. Felly cofnodwyd achos ei farwolaeth fel 'Gwenwyndra MDMA' a chasgliad y Crwner oedd dyfarniad o farwolaeth 'drwy Ddamwain'.
- Roedd gan asiantaethau nifer o gofnodion yn ymwneud ag ymddygiad peryglus y person ifanc, gan gynnwys achlysuron lle y gellid fod wedi cyflwyno Atgyfeiriad Amlasiantaethol i Wasanaethau Plant.
- Roedd dystiolaeth bod y rhiant wedi gofyn i'r person ifanc gael ei brofi am gyffuriau ar sail ei bryder ynghylch camddefnyddio sylweddau.

<sup>12</sup> Partneriaeth Diogelu Plant Sir Benfro, Plant a Phobl Ifanc ag Ymddygiadau Cymryd Risg, Protocol Amlasiantaethol (Medi 2015).

## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 2/2017

- 'Mae'r Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau'<sup>13</sup> – Gorffennaf 2013, yn rhoi gwybodaeth fanwl ynghylch darparu addysg camddefnyddio sylweddol priodol yn ôl gofynion unigol ac angen penodol, ynghyd â rheoli achosion o gamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys cefnogaeth, deddfwriaeth ac arfer da. Mae'r Canllawiau hyn yn eu lle i'w defnyddio o fewn lleoliadau addysgol ac allgymorth. Un peth a gododd o'r Digwyddiad Dysgu oedd angen i adolygu gweithrediad y Canllawiau hyn ac i weithwyr proffesiynol edrych ar ddulliau amgen o ymgysylltu â phobl ifanc a'u gwneud yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau a'r goblygiadau hirdymor, nid yn unig iddyn nhw eu hunain, ond hefyd yr effaith ehangach ar eu teuluoedd a'u cymunedau.

### Arfer Da a Nodwyd

Y berthynas dda y llwyddodd y Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal ei datblygu gyda'r person ifanc drwy ddyfalbarhad er nad oedd y person ifanc ar adegau eisiau ymgysylltu er mwyn mynd i'r afael â'i broblemau.

### Arfer Da a Nodwyd

Sefydliad Partneriaeth Lleihau Niwed Ceredigion yn Ebrill 2017. Daeth y fforwm hwn ag uwch weithwyr o ystod eang o asiantaethau ynghyd er mwyn:

- Rhannu gwybodaeth ar strategaethau lleihau niwed presennol a'u dwyn ynghyd mewn strategaeth amlasiantaethol gyfun;
- Cynllunio strategaethau lleihau niwed cydgysylltiedig newydd, ac yn dilyn cytundeb, trefnu eu bod yn cael eu gweithredu, fel rhan o ddull amlasiantaethol cydgysylltiedig; a
- Darparu diweddariadau ar weithgareddau'r bartneriaeth i Fyrddau a Fforymau eraill perthnasol.

### Arfer Da a Nodwyd

Dangosodd asiantaethau arfer arloesol trwy drefnu cyfarfodydd cymunedol i rieni'r bobl ifanc a oedd yn dangos problemau o ran ymddygiad peryglus yn y gymuned. Roedd y cyfarfodydd hyn yn hygyrch ac yn gynhwysol, gan gyfrannu at rai canlyniadau llwyddiannus.

### Safbwynt y Teulu / Ffrind

Roedd ymddygiad y person ifanc o ran camddefnyddio sylweddau yn dod yn anodd ei reoli ac yn achosi problemau a risgiau o fewn a thu allan y cartref. Er bod asiantaethau camddefnyddio sylweddau proffesiynol yn ymgysylltu, roedd y teulu a ffrindiau yn teimlo nad oedd unrhyw help gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau'r person ifanc; 'nid oedd digon yn cael ei wneud ynglŷn â'r peth ac roedd angen gwneud mwy'. Roedd yn rhaid i'r person ifanc roi ei ganiatâd, tra'n ymgysylltu'n wirfoddol, ac nid oedd yn fodlon gwneud hynny. Roedd brodyr a chwiorydd hefyd yn teimlo y dylai fod mwy o gyrchoedd chwilio am gyffuriau mewn ysgolion a bod angen adolygu addysg cyffuriau. Roedd angen i rieni hefyd fod yn fwy ymwybodol a chael mwy o wybodaeth. Roedd y person ifanc yn hoffi bod gyda'i ffrindiau a'i deulu. Fodd bynnag, digon cyfyngedig oedd y cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â gweithgareddau yn yr ardal yr oeddynt yn byw ynddi.

Roedd brodyr a chwiorydd a ffrindiau yn teimlo y byddai'n fuddiol yn y dyfodol i bobl ifanc eraill glywed stori'r person ifanc fel profiad dysgu.

<sup>13</sup> [Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau](#), Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2013.



### Dysgu

Bydd angen i'r Grŵp Lleihau Niwed Amlasiantaethol adolygu llwybrau a phrotocolau rhannu gwybodaeth asiantaethau er mwyn codi ymwybyddiaeth asiantaethau ynghylch Ffurflenni Atgyfeirio Amlasiantaethol a sicrhau cysondeb ac ymwybyddiaeth barhaus fel rhan o arfer da rhyngasiantaethol.

### Dysgu

Mae CYSUR, Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cychwyn gwaith ar ddrafftio 'Protocol Ymddygiad Peryglus' amlasiantaethol rhanbarthol a fydd yn helpu i gefnogi a llywio'r gwaith o ddiogelu pobl ifanc sy'n dangos ymddygiadau peryglus.

### Dysgu

Mae'n rhaid hefyd rhannu negeseuon sy'n cael eu cyfleu yn yr amgylchedd dysgu gyda rhieni a gofawyr i'w galluogi i atgyfnerthu'r rhain yn y cartref. Mae angen hyfforddiant pellach hefyd, drwy ystod o fforymau gyda rhieni, asiantaethau a phobl ifanc yn cael eu hyfforddi i fod yn 'ffrindiau cefnogol'.

### Dysgu

Mae angen sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael er mwyn gallu gweithio gyda phobl ifanc ar sail allgymorth yn y fan a'r lle, heb orfod aros i bobl ifanc ymgysylltu'n wirfoddol gyda gwasanaethau. Trwy'r Bartneriaeth Lleihau Niwed, caiff strategaethau lleihau niwed cydgysylltiedig newydd eu cynllunio a'u gweithredu drwy bartneriaid amlasiantaethol.

### Dysgu

Mae angen adolygu gweithrediad effeithiol y Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau<sup>14</sup> o fewn lleoliadau. Wrth wneud hynny, dylai gweithwyr proffesiynol edrych ar ffyrdd gwahanol o ymgysylltu â phobl ifanc, i'w gwneud yn ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddol a'r goblygiadau mwy hirdymor, nid yn unig iddyn nhw eu hunain ond hefyd yr effaith ehangach ar deuluoedd a chymunedau.

### Rheoli Absenoldeb/Darpariaeth Addysgol

- Roedd absenoldeb o ddarpariaeth addysgol yn ffactor pwysig yn y problemau a gododd gyda'r person ifanc. Roedd y person ifanc yn academiaidd alluog ac ar ddechrau'r llinell amser, fe fyddai wedi bod yn bosibl iddo ennill cymwysterau o fod yn ymgysylltu'n briodol.
- Roedd y person ifanc yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn dilyn amser anodd a heriol iawn yn yr ysgol. Dros linell amser yr Adolygiad, roedd y person ifanc ym mlwyddyn 11.
- Er gwaethaf nifer o waharddiadau, darpariaeth gyfyngedig a heriau a oedd yn dod i'r amlwg, parhaodd y gwasanaethau dysgu i weithio gyda'r person ifanc a'i deulu gan ddarparu cyfleoedd a rheoli absenoldeb yn unol â'u gweithdrefnau.
- Roedd camau hanesyddol wedi'u cymryd ynghylch absenoldeb y person ifanc (cafwyd cyrchoedd triwantaeth a rhybuddion blaenorol ynghylch pwysigrwydd presenoldeb a rôl y rhieni o ran cydymffurfio yn hyn o beth). Rhoddwyd ystyriaeth yn y Digwyddiad Dysgu

<sup>14</sup> [Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau](#), Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2013.

## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 2/2017

i'r defnydd o bwerau deddfwriaeth ym mlwyddyn 11 a phryd/os dylid eu defnyddio – roedd tueddiad i beidio â'u defnyddio ar hyn o bryd.

### Arfer Da a Nodwyd

Parhau i ddyrannu adnoddau i gefnogi anghenion unigol y person ifanc a'i gludo i ddarpariaeth addysgol amgen. Yr ymdrechion a wnaed i wrando ar y person ifanc, ac i chwilio am brofiad/cyfleoedd gwaith a oedd yn briodol i'r hyn yr oedd ganddo ddiddordeb galwedigaethol ynddo.

### Safbwynt y Teulu / Ffrind

Roedd y teulu'n teimlo fod pethau wedi 'dirywio' ar ôl gwaharddiad y person ifanc o'r ysgol brif ffrwd. Roeddynt yn teimlo y dylai'r ysgol fod wedi cadw'r person ifanc ar y gofrestr, a heb fod 'troi eu cefnau arno'. Fodd bynnag, roeddynt hefyd yn cydnabod y gefnogaeth eang a roddwyd i'r person ifanc gan wasanaethau cefnogi.

### Dysgu

Mae angen ystyried yn ofalus sut i reoli absenoldebau dysgwyr ym mlwyddyn 11 a thrafod drwy adolygiad ymarfer proffesiynol, sut y gellir defnyddio/sut y defnyddir dulliau deddfwriaethol i wella presenoldeb.

### Dysgu

I ystyried ymgysylltu'n ehangach ag asiantaethau lleol a darparwyr addysgol/hyfforddiant er mwyn darparu cwricwlwm amgen, i bobl ifanc y mae'n anodd ymgysylltu â nhw.

## Personau Coll

- 'Dylai pob achos o berson ar goll ennyn sylw priodol y gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r person sydd ar goll ac mae'n rhaid iddynt gydweithio i sicrhau ymateb cyson a chydlynol i'r person coll pan fydd ef/hi yn dychwelyd' ('Canllawiau ar reoli, cofnodi ac ymchwilio i bersonau coll'<sup>15</sup>, Cymdeithas Genedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, 2005). Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau pan fyddai'r person ifanc yn mynd ar goll, y prif amcan bob tro oedd ei leoli ac yna'i ddychwelyd i addysg neu i'r cartref.
- Roedd yr amserlen yn dangos gweithio rhyngasiantaethol effeithiol yn hyn o beth, a arweiniodd at Gyfarfodydd / Trafodaethau Strategaeth, yn dilyn y tri achos pan oedd y person ifanc ar goll o'i gartref. Pan aeth y person ifanc ar goll o addysg, deliwyd â'r mater er mwyn cydymffurfio â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a Phrotocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant Coll<sup>16</sup> – Plant sy'n Rhedeg i Ffwrdd neu'n Mynd ar Goll o'u Cartref neu o Leoliad Gofal, (2011).
- Roedd yr Heddlu a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â chludo'r person ifanc adref.
- Cynhaliwyd cyfweiliadau / sesiynau trafod y digwyddiad pan leolwyd y person ifanc o fewn yr amserlenni priodol. Roedd achlysuron pan nad oedd rhiant y person ifanc yn ymwybodol ei fod ar goll.

### Safbwynt y Teulu

Ni fyddai'r person ifanc yn dweud wrth ei riant ble roedd yn aros; byddai'n anfon neges testun i ddweud ei fod yn 'aros gyda ffrind'.

<sup>15</sup> [Canllawiau ar Reoli, Cofnodi ac Ymchwilio i Bersonau Coll](#), ACPO 2005.

<sup>16</sup> [Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant Coll](#), Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, Gorffennaf 2011.

### Dysgu

Roedd rhai asiantaethau'n gwybod bod grŵp o bobl ifanc yn symud o amgylch hosteli, tai a gwestai; gallai asiantaethau fod wedi ystyried cydlynu ymyriadau a chymryd mwy o gamau uniongyrchol i ddatrys y sefyllfa.

### Gwella Systemau ac Ymarfer

*Er mwyn hyrwyddo'r gwersi a ddsygwyd o'r achos hwn, mae'r adolygiad hwn wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd ac asiantaethau aelodau'r Bwrdd, yn ogystal â'r canlyniadau disgwylidig:*

Roedd asiantaethau wedi rhoi cryn dipyn o ymarfer ar waith i gefnogi'r person ifanc, i geisio deall ei anghenion, i adnabod ei alluoedd a'i gynorthwyo i ymgysylltu. Mae'r dysgu canlynol wedi'i nodi er mwyn llywio ymarfer a gwella systemau ar gyfer y dyfodol:

**Dysgu 1:** Dylai holl Asiantaethau dderbyn a rhoi ar waith Brothocol Ymddygiad Peryglus y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol o fewn amserlen gytûn wedi iddo gael ei gyhoeddi.

**Dysgu 2:** Holl weithwyr proffesiynol i fod yn ymwybodol o'r trothwyau ar gyfer cyflwyno Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol<sup>17</sup> (MARF) fel y'u diffinnir gan ddogfen Cymorth CYSUR 2017, 'Y Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd', Trothwyau a Chymhwysedd Rhanbarthol'. Eu defnyddio yn gyfannol i adrodd a rhannu pryderon ynghylch diogelu mewn modd amserol, er mwyn gallu targedu ymateb i faterion sy'n ymddangos/gwaethygu.

**Dysgu 3:** I ddatblygu darpariaeth / cynllunio addysgol amgen unigol pellach, gan ystyried cwricwlwm / cymorth bugeiliol amlasiantaethol ehangach, lle bo hynny'n briodol, sy'n adlewyrchu anghenion unigol y person ifanc.

**Dysgu 4:** Sicrhau bod gweithdrefnau absenoldeb o leoliadau addysg yn cael eu cymhwyso yn yr un modd i holl ddisgyblion o oed ysgol statudol.

**Dysgu 5:** Ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion i adolygu cydymffurfiad, gyda'r 'Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau'<sup>18</sup> (Gorffennaf 2013), yn eu harchwiliadau diogelu blynyddol. Sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni'n ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer delio gyda digwyddiadau camddefnyddio sylweddau ac yn deall y goblygiadau iddynt, os yw pobl ifanc yn ymgymryd ag arferion o'r fath. Dylai holl ysgolion lleol fod yn derbyn mewnbyn gan y Bwrdd ac yn eu galluogi drwy eu hymgyrchoedd blynyddol i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

<sup>17</sup> Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) CYSUR Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin 2017. 'Y Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir' i Blant, Pobl Ifanc a'u Teuluoedd. Dogfen Gymorth Trothwyau a Chymhwysedd Rhanbarthol'. Cydweithredu gan Ganolbarth a Gorllewin Cymru, Ebrill 2017.

<sup>18</sup> Canllawiau ar gyfer Addysg Camddefnyddio Sylweddau Gorffennaf 2013 Llywodraeth Cymru.

### Proses yr Adolygiad Ymarfer Plant

*I'w gynnwys yma yn fyr:*

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu*
- *Cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu a'r gwasanaethau a fynychodd*
- *Hysbyswyd aelodau'r teulu, gofynnwyd am eu barn a'u cynrychioli trwy gydol y Digwyddiad Dysgu a rhodiwyd adborth iddynt.*

Yn y cyfarfod PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl mewn Plentynod), roedd aelodau o'r farn bod amgylchiadau'r farwolaeth sydyn a hanes y person ifanc yn sail ar gyfer atgyfeirio'r achos er mwyn ei ystyried dan Broses Adolygiad Ymarfer Plant. Trafodwyd y mater yn y Grŵp Gweithredol Lleol, a gwnaed argymhelliad i Gadeirydd y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Rhoddodd y Cadeirydd gymeradwyaeth ar gyfer cynnal Adolygiad Ymarfer Plant Cryno.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu fel a ganlyn:

- Tîm o Amgylch y Teulu (TAF);
- Ymddiriedolaeth GIG Cymru Gwasanaethau Ambiwllans (WAST);
- Heddlu;
- Gwasanaethau Cymdeithasol Teuluoedd a Phlant yr ALI;
- Iechyd;
- Addysg;
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal (YJPS); a
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau.

Comisiynwyd Adolygydd Annibynnol a oedd, yn unol â'r canllawiau, yn annibynnol ar y sawl oedd yn rheoli'r achos ac a oedd yn meddu ar y profiad, y gallu, y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol ar gyfer yr achos.

Yn unol â'r canllawiau, cynhaliwyd Digwyddiad Dysgu ar 7 Chwefror 2018, a hwyluswyd gan yr Adolygydd Annibynnol, a mynychodd gweithwyr proffesiynol o'r asiantaethau canlynol:

- Tîm o Amgylch y Teulu (TAF);
- Ymddiriedolaeth GIG Cymru Gwasanaethau Ambiwllans (WAST);
- Heddlu;
- Gwasanaethau Cymdeithasol Teuluoedd a Phlant yr ALI;
- Iechyd;
- Addysg;
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal (YJPS); a
- Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau.

Ymgysylltodd teulu'r person ifanc yn llwyr gyda'r broses Adolygu. Bu Cydlynnydd y Tîm o Amgylch y Teulu'n siarad â'r teulu yn ystod Rhagfyr 2017, ac yn dilyn hynny, ysgrifennwyd atynt gan yr Adolygydd Annibynnol. Wedyn, cynhaliwyd cyfarfod rhwng yr Adolygydd Annibynnol a'r teulu ac

## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 2/2017

ymunodd cyfaill agos i'r person ifanc hefyd. Yn dilyn hynny, cafodd safbwyntiau, atgofion a theimpladau'r teulu eu cyfleu yn y Digwyddiad Dysgu gan yr Adolygydd Annibynnol, a'u cynnwys o fewn y dysgu; ystyriwyd y rhain hefyd fel rhan o'r adroddiad hwn. Mae'r teulu wedi derbyn diweddariadau trwy'r broses Adolygu a chynigiwyd cyfarfod pellach iddynt gyda'r Adolygydd Annibynnol cyn i'r Adolygiad Ymarfer Plant Cryno gael ei gyhoeddi.

Rhoddodd y Digwyddiad Dysgu gyfle i'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ystyried eu cyfranogiad, eu hymarfer, eu hasesiadau a'u prosesau gwneud penderfyniadau mewn cysylltiad â bywyd y person ifanc. Roeddent felly'n gallu ystyried y cwestiynau canlynol, gan ddefnyddio methodoleg 'Arwyddion Diogelwch'<sup>19</sup>:

1. Beth oedd y meysydd ymarfer a aeth yn dda ac a oedd unrhyw feysydd arfer da i'w nodi?
2. Beth y teimlai'r asiantaethau nad oedd wedi mynd yn dda?
3. Beth fyddai asiantaethau'n ei wneud yn wahanol (myfyrio ar eu prosesau gwneud penderfyniadau, asesu/arfer proffesiynol) a beth maent wedi'i ddysgu o ganlyniad?
4. Beth yw'r camau gweithredu y bydd asiantaethau'n eu cynnal wrth symud ymlaen, i sicrhau bod eu dysgu'n llywio eu hymarfer a'r modd y maent yn darparu gwasanaethau yn y dyfodol?

Roedd gwerthusiadau o'r Digwyddiad Dysgu yn nodi iddo fod yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn, gyda dysgu wedi digwydd ar lefel gwasanaeth ac ar lefel gweithiwr proffesiynol unigol. Nodwyd camau gweithredu i wella gwasanaethau a gwaith ymarferwyr a'u cynnwys yn yr Adolygiad.

Gwrthododd y teulu i gymryd rhan: Na

<sup>19</sup> Turnell Andrew & Edwards Steve: Signs of Safety (A Solution and Safety Orientated Approach to Child protection Casework), USA, WW Norton & Company, 1999.

## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 2/2017

Datganiad gan yr Adolygydd/Adolygwyr			
<b>Adolygydd 1</b>	Maxine Thomas	<b>Adolygydd 2</b>	N/A <i>(os yw'n briodol)</i>
<b>Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos</b> <i>Sicrhau Ansawdd – Datganiad ynghylch cymhwysedd</i>		<b>Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos</b> <i>Sicrhau Ansawdd – Datganiad ynghylch cymhwysedd</i>	
<p>Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos.</li> <li>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ ymarferwyr dan sylw.</li> <li>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad.</li> <li>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>		<p>Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r plentyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos.</li> <li>• Nid wyf wedi bod yn rheolwr llinell uniongyrchol i'r ymarferwr/ ymarferwyr dan sylw.</li> <li>• Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad.</li> <li>• Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y Cylch Gorchwyl.</li> </ul>	
<b>Adolygydd 1</b> .....		<b>Adolygydd 2</b> .....	
<i>(Llofnod)</i>		<i>(Llofnod)</i>	
<b>Enw</b>	Maxine Thomas	<b>Enw</b>	.....
<i>(Mewn llythrennau bras)</i>		<i>(Mewn llythrennau bras)</i>	
<b>Dyddiad</b>	.....	<b>Dyddiad</b>	.....
<b>Cadeirydd y Panel Adolygu</b> .....			
<i>(Llofnod)</i>			
<b>Enw</b>	.....		
<i>(Mewn llythrennau bras)</i>			
<b>Dyddiad</b>	.....		
<b>Ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig</b>			
Y dyddiad y daeth y wybodaeth i law: ..... <i>(dyddiad)</i>			
Y dyddiad yr anfonwyd y llythyr cydnabod at Gadeirydd y Bwrdd: ..... <i>(dyddiad)</i>			
Dosbarthwyd yr wybodaeth i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol:..... <i>(dyddiad)</i>			
<b>Asiantaethau</b>	<b>Do</b>	<b>Naddo</b>	<b>Rheswm</b>
AGGCC			
Estyn			
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru			
Arolygiaeth Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi			
Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi			

## **Atodiad 1**

## **Cylch Gorchwyl ar gyfer CYSUR 2/2017 (CCPR)**

### **Tasgau Craidd:**

- Penderfynu a yw'r penderfyniadau a'r camau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau'r Bwrdd a'r gwasanaethau a enwir.
- Archwilio effeithiolrwydd gwaith rhyngasiantaethol a'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau i'r plentyn a'r teulu.
- Penderfynu i ba raddau yr oedd y penderfyniadau a'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar y plentyn ac er lles iddo.
- Ceisio cyfraniadau i'r adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.
- Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu weithrediadau cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.
- Cynnal Digwyddiad Dysgu amlasiantaethol i ymarferwyr a nodi'r adnoddau gofynnol.

### **Tasgau penodol y Panel Adolygu:**

- Dewis a chomisiynu adolygydd i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol â'r canllawiau ar gyfer adolygiadau cryno.
- Cytuno ar yr amserlen.
- Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu i'r adolygiad, llunio llinell amser a chrynodeb cychwynnol o'r achos a nodi unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd eisoes yn syth.
- Cwblhau dogfen Amlinelliad Cychwynnol Arfaethedig o'r Adolygiad, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch yr Adolygydd Annibynnol ac aelodaeth y Panel.
- Llunio llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a deilliannau dysgu.
- Gweithio gyda'r adolygydd i gynllunio Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr, a ddylai gynnwys camau i nodi'r sawl a ddylai fynychu, y trefniadau ar gyfer eu paratoi a'u cefnogi cyn y digwyddiad ac ar ei ôl, a'r trefniadau ar gyfer rhoi adborth.
- Gweithio gyda'r adolygydd i gynllunio trefniadau ar gyfer cysylltu â'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
- Cael ac ystyried adroddiad drafft yr Adolygiad Ymarfer Plant er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni a bod unrhyw waith dysgu ychwanegol wedi'i nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
- Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol a gwneud trefniadau i'w cyflwyno i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant er mwyn iddo eu hystyried a chytuno arnynt.
- Cynllunio trefniadau ar gyfer rhoi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl i'r adolygiad ddod i ben a chyn cyhoeddi'r adroddiad.
- Bydd aelodau'r *Panel Adolygu* yn cadw at egwyddorion *Deddf Diogelu Data 1998*<sup>20</sup> wrth drin gwybodaeth bersonol fel rhan o broses yr Adolygiad Ymarfer Plant (gweler yr adran ar Rannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd).

### **Tasgau penodol yr Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Plant:**

- Cytuno ar gylch gorchwyl drafft ar gyfer pob achos a argymhellir ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant, a'i gymeradwyo.
- Cytuno ar gasgliadau'r adroddiad drafft a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hystyried a chytuno arnynt.
- Monitro cynlluniau gweithredu Adolygiadau Ymarfer Plant er mwyn sicrhau bod yr holl argymhellion yn cael eu cynnal a'u cyflawni ar ran y Bwrdd.

### **Tasgau Bwrdd Diogelu Plant CYSUR:**

- Hysbysu Llywodraeth Cymru bod y Bwrdd yn comisiynu Adolygiad Ymarfer Plant.
- Cadw at yr amserlen ar gyfer cwblhau, yn unol â chanllawiau statudol.
- Derbyng a chymeradwyo'n ffurfiol yr adroddiad CPR terfynol a'r cynllun gweithredu.
- Ystyried unrhyw bwyntiau dysgu o ran y Bwrdd sydd i'w hymgorffori yn yr adroddiad terfynol

<sup>20</sup> [Egwyddorion Allweddol](#) Deddf Diogelu Data 1998

## Adolygiad Ymarfer Plant Cryno CYSUR 2/2017

neu'r cynllun gweithredu, a chytuno arnynt.

- Cadarnhau trefniadau er mwyn i'r Is-grŵp Adolygiadau reoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol, gan gynnwys sut y caiff y gwelliannau a ddisgwyllir i wasanaethau eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
- Cynllunio ar gyfer cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd am o leiaf 12 wythnos wedi iddo gael ei gwblhau.
- Cytuno i ddsbarthu'r adroddiad i asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
- Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn gyfrifol am bob sylw cyhoeddus ac am bob ymateb i unrhyw ddi-ddordeb gan y cyfryngau sy'n ymwneud â'r adolygiad, nes i'r broses gael ei chwblhau.

### **Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd:**

Rhaid cadarnhau perchenogaeth yr holl wybodaeth a dogfennau fel bod modd cael caniatâd priodol y sefydliad perthnasol cyn eu rhannu. Dim ond gwybodaeth sy'n eiddo iddynt neu wedi'i llunio ganddynt y gall sefydliadau ei rhannu.

Dylai'r Panel gadarnhau'r cyfrifoldeb am wneud cais am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys gan ddarparwyr annibynnol) a chytuno arno, fel y bo'n briodol.

Bydd datganiad cyfrinachedd (fel y gwelir isod) yn cael ei lofnodi ym mhob un o gyfarfodydd y Panel gan bawb sy'n bresennol er mwyn ail-gadarnhau'r ffiniau ar gyfer rhannu gwybodaeth:

- Wrth weithio â gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag adolygiad ymarfer plant, rhaid bod gan bob asiantaeth ffiniau cyfrinachedd y cytunwyd arnynt. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny ac fe'i cynhelir yn unol â dealltwriaeth a rennir:
- Bod cyfarfod y Panel yn cael ei alw'n unol â chanllawiau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.
- Yr ystyrir bod unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel, y tu hwnt i'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod, yn torri cyfrinachedd y gwrthrych ac yn torri cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
- Os teimlir bod cydsyniad i ddatgelu yn hanfodol, y dylid ceisio caniatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail egwyddor 'angen gwybod'.
- Fodd bynnag, yn y pen draw, cyfrifoldeb Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw datgelu gwybodaeth gan y Panel Amlasiantaethol i drydydd parti a rhaid cyfeirio at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu.